## **Pleidleisiwch o Blaid Lles y Cyhoedd**

Cynhadledd Esgobion Lloegr a Chymru

Mae canlyn Crist yn gofyn am ymrwymiad personol. Ni all hyn fod yn beth cwbl breifat. Mae'r gorchymyn i garu Duw a charu cymydog yn mynd law yn llaw. Agweddau na ellir eu gwahanu yndynt ar orchymyn sylfaenol cariad. Mae gwahoddiad yr Efengyl i garu yn cynnwys helpu'r rhai mewn angen a hefyd y ddyletswydd i gyfrannu tuag at adeiladu cymdeithas ar seilaiu cyfiawnder a thosturi.

Cyn etholiad 1997, cyhoeddwyd gan esgobion Lloegr a Chymru ddatganiad *Lles y Cyhoedd ac Athrawiaeth Gymdeithasol yr Eglwys Gatholig.* Mae'r athrawiaeth honno yr un mor bwrpasol heddiw. Ac felly, a ninnau ar drothwy Etholiad Cyffredinol arall, yr ydym yn argymell Catholigion i fyfyrio ar athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys a'i phriodoldeb yn y sefyllfa bresennol.

Mae'r athrawiaeth hon yn gosod egwyddorion a nod i fywyd y gymdeithas.. Ei ffocws yw lles y cyhoedd. Mae'n goleuo ein hagwedd at gymdeithas a'n hymateb wrth gloriannu polisi cyhoeddus. Nid rhaglen wleidyddol mohoni ac y mae'n briodol fod Catholigion i'w cael yn y gwahanol bleidiau gwleidyddol. Nid ein gwaith ni yw awgrymu sut y dylid pleidleisio ac nid ydym yn gwneud hyn.

Galwn arnoch i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ac yna i bleidleisio gyda'r cwestiwn hwn yn llywio eich dewis: 'Sut y gall fy mhleidlais i hyrwyddo lles y cyhoedd?'

Fe'ch gwahoddwn hefyd i weddïo dros ein gwledydd a thros holl weithrediadau llywodraeth ar yr adeg arbennig hon.

*Y Cardinal Cormac Murphy-O'Connor*
*Lywydd*
*Cynhadledd Esgobion Lloegr a Chymru*
*Mis Mawrth 2001*

**Athrawiaeth gymdeithasol gatholig: gwasanaethu lles y cyhoedd**

*athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys*

Yr Efengyl a dysgeidiaeth Crist ar urddas pob dyn yw sail athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys. O'i genhedlu hyd at angau, mae i bob bywyd dynol werth na ellir ei ddiddymu na'i anwybyddu. Mae pobun wedi'i greu ar lun a delw Duw. Mae iddo urddas nad yw'n dibynnu ar oedran, hil, rhyw na chyfoeth nac unrhyw briodoledd arall.

Yr ydym yn llwyr ddibynnu ar ein gilydd, a chan bobun gyfrifoldeb dros ei gymydog mewn sawl ffordd. Wrth i'r berthynas rhyngom ddyfnhau a chynyddu mewn cariad, yr ydym yn aeddfedu fel bodau dynol. Ar y llaw arall, os byddwn yn dod mor hunanol nes anwybyddu ein cymydog, ein bychanu ein hunain y byddwn. Rhan annatod ydym o'r blaned ac arnom ddyletswydd i ofalu amdani, yn enwedig pan fyddwn yn ei newid.

*cydymddibyniad*

Mae'r rhwymau sydd yn ein clymu wrth eraill yn mynd y tu hwnt i berthynas person â pherson. Yr ydym yn perthyn i grwpiau, i genedl arbennig neu ddiwylliant, iaith neu grefydd. Yr ydym i gyd yn aelodau o'r un teulu dynol, yn byw yn yr un byd. Bob tro y byddwn yn cyfrannu at apêl am gymorth i'r newynog neu at ryw drychineb, neu yn dangos ein gofal dros bobl nad ydym yn eu hadnabod, yr ydym yn cydnabod yn reddfol ein bod ni oll o'r un hil ddynol. Mae'r cydymddibynnu hwn yn graidd i'r syniad o les y cyhoedd.

*lles y cyhoedd*

Nid dedwyddwch uchaf y lliaws yw lles y cyhoedd. Cyfanswm ydyw o'r holl amodau cymdeithasol sydd yn sicrhau parchu urddas ddynol pobun ac yn anrhydeddu anghenion sylfaenol pawb ac, ar yr un pryd, yn caniatáu'r rhyddid i bobun i dderbyn y cyfrifoldeb dros ei fywyd ei hun. Dyletswydd llywodraeth felly, yn lleol ac yn ganolog, yw sicrhau fod eu polisïau er lles y cyhoedd gan ddiogelu'r gwan a'r diamddiffyn a hyrwyddo datblygiad cyflawn pawb.

*datganoli*

Mae athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys yn pwysleisio mai rôl a rhan y llywodraeth a phob awdurdod cyhoeddus yw bod at wasanaeth y person dynol. Ni ddylid cymryd oddi ar unigolion a chyrff gwirfoddol y pethau y gallant gyflawni o'u menter a'u gweithgarwch eu hun. Hefyd, dylid datganoli penderfyniadau mor agos at y werin bobl ag y bydd trefn a llywodraeth dda yn caniatáu.

*hawliau dynol*

Mewn cyfraith gwlad a pholisi llywodraethau ac yn athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys, mae hawliau dynol wedi dod yn ganolog er mwyn amddiffyn bywyd dynol a rhyddid yr unigolyn. Ond fe all ein cymdeithas weithiau orbwysleisio hawliau unigol a rhyddid personol gyda'r perygl o ddiystyru lles y cyhoedd. Ni ellir amddiffyn elfennau allweddol lles y cyhoedd, pethau fel heddwch, cyfiawnder, tosturi, parch y naill at y llall, heb gydweithrediad ac ymrwymiad pawb.

Bydd cydymrwymo ag eraill ynghyd â'r ymwybod o fod yn aelodau o'r un teulu dynol yn ein harwain i ddarganfod y dulliau ymarferol yn ein bywyd bob dydd o fyw gorchymyn yr Efengyl i garu ein cymydog. Rhaid ymgroesi rhag gadael popeth i bobl eraill ac i sefydliadau. Ar yr un pryd, mae ar lywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill ddyletswydd eglur i wasanaethu lles y cyhoedd a gofalu yn arbennig am y rhai sydd fwyaf eu hangen.

**Rhai materion cyfoes**

Nid ein gwaith ni yw cynnig adroddiad diwedd tymor ar y Llywodraeth na chynnig maniffesto i unrhyw blaid. Ac mewn dogfen fel hon, ni ellir cyffwrdd hyd yn oed â llawer o'r meysydd y bu i'n datganiad *Lles y Cyhoedd* eu harchwilio'n fanwl. A chofio'n arbennig y rhai mewn angen, ni wnawn ond galw sylw at rai o'r pynciau sylfaenol sydd yn wynebu ein cymdeithas heddiw. Yr ydym yn ymwybodol nad y rhain yw'r unig faterion o bwys.

*teuluoedd*

Ynghyd â llawer o bobl o bob crefydd a rhai digrefydd, mawr yw ein gofid oherwydd ansadrwydd cynyddol bywyd teuluol, a chanlyniadau dybryd y chwalu ar briodas a theuluoedd. Yn ychwanegol at y dioddef personol enbyd, mae dylanwad economaidd enfawr y torri ar deuluoedd yn dod yn fwyfwy amlwg; felly hefyd y canlyniadau mewn tlodi i blant, diffyg datblygiad addysgiadaol ac anghaffael yn eu hymddygiad. Rhaid wynebu achosion a chanlyniadau'r chwalu ar deuluoedd os ydym am ddiogelu iechyd moesol ac egni ysbrydol, yn ogystal â ffyniant parhaol ein gwledydd.

Nid mater o bolisi cyhoeddus yn unig mo hyn. Mae hybu sefydlogrwydd teuluoeded yn gyfrifoldeb pawb. Mae gan bobun ohonom le a chyfran mewn cynnal priodas a bywyd teuluoedd. Ond y mae polisi cyhoeddus yn dra phwysig - rhywbeth sy'n cael ei gydnabod gan yr holl bleidiau gwleidyddol. Mae ffactorau economaidd sydd yn bygwth y teulu, rhai fel ansicrwydd swydd a gwaith, cyflwr tai, tlodi a dyled, a hefyd y gwelliannau tila a'r gynhaliaeth annigonol a gynigir i rieni tlawd a digymar, yn enwedig pan fo'r plant yn fychain. Mae pwysau cynyddol oriau gwaith hir a masnachu ar y Sul yn amddifadu teuluoedd o amser ynghyd yn y teulu. Yn bwysicach, mae iechyd cymdeithas yn gofyn am gefnogaeth i fywyd priodasol. Priodas yw'r fframwaith sydd debychaf o greu a chynnal y berthynas sefydlog yn y teulu sydd yn addas er mwyn meithrin y plant. Mae angen addysg briodol yn yr ysgolion ac ariannu digonol tuag at gynghori'r partneriaid a sefydlogi'r berthynas briodasol o fewn y teulu ac yn y gymdeithas.

*bywyd dynol*

Ystyriaeth o'r pwys mwyaf yw bywyd dynol. Dyletswydd gyntaf a mwyaf sylfaenol gwladwriaeth ddemocrataidd yw amddiffyn bywyd ei holl ddeiliaid yn ddiwahân, ac yn enwedig y rhai gwan a hawdd eu clwyfo. Ers cyfreithloni erthylu ym 1967, mae Prydain wedi methu yn y cyfrifoldeb sylfaenol hwn, a'r gost mewn bywydau dynol yn uchel iawn o'r herwydd. Amlygir croesddywediadau dramatig yn ein dyfarniadau cyfreithiol, ym mholisiau cyhoeddus ac yn y gwasanaethau iechyd; ar yr un llaw, nid yw'r gost yn cyfrif pan ddymunir gael neu ddiogelu bywyd; ond gellir dinistrio bywyd yn rhwydd ac yn ddifeddwl.

Ym 1990 tanseiliwyd eto'r ddyletswydd i amddiffyn bywyd dynol pan gyfreithlonwyd arbrofi ar embryonau dynol. Yn ddiweddar, agorwyd gagendor moesol affwysol gan benderfyniad y Senedd i ganiatáu creu a dinistrio clonau embryonig dynol. Mae'n ddigon posibl y gwelir y Senedd nesaf yn ceisio cyfreithloni ewthanasia. Byddai hyn yn foesol annerbyniol ac yn beryglus. Beth bynnag fo'r cymhelliad, mae ewthanasia yn golygu llofruddio. Ni all fod er lles y cyhoedd.

Rhaid i Gatholigion holi beth yw safbwynt yr ymgeiswyr lleol ar y materion sylfaenol hyn sydd yn fwriadol yn uniongyrchol ddinistriol ar fywyd dynol. Digon posibl y byddant yn penderfynu pleidleisio o blaid neu yn erbyn ymgeisydd ar sail ei safiad ar y materion hyn. Gan fod athrawiaeth gymdeithasol yr Eglwys yn coleddu moeseg gyson ar fywyd ac yn ystyried popeth sydd yn bygwth bywyd - ac yn enwedig tlodi a phrinder cyffredinol gynhwysfawr - rhaid ystyried safiad yr ymgeisydd ar yr holl faterion hyn a'u tebyg cyn pleidlesio. Nid refferendwm ar bynciau unigol mo Etholiad Cyffredinol ond y mae safbwynt ymgeisydd ar bynciau allweddol yn mynegi'n groyw ei werthoedd a'i flaenoriaethau.

*tlodi ac anghyfiawnder ar draws y byd*

Er gwaethaf datblygiadau gwyddonol enfawr, fe erys dros 800 miliwn o bobl heb ddigonedd o fywyd i gynnal bywyd iach; ac y mae miliynau eraill yn marw o newyn bob blwyddyn. Mae Llywodraethau Prydain wedi arwain yr ymdrechion i leihau baich y dyledion na all y gwledydd tlotaf byth mo'u talu. Mae'n hanfodol bwysig fod y broses hon yn parhau.

O'r pwys mwyaf yw cymorth i'r gwledydd tlotaf ac amcanion y cymorth wedi'u dewis yn ofalus. Ymhlith y rhain yw ymrwymiad i ddiogelu'r amgylchfyd, a datblygiad y gellir ei gynnal. Rhaid diwygio masnach ryngwladol a chyfundrefn ariannol y gwledydd fel y bydd y datblygiadau globaol er lles y tlawd yn hytrach nag yn gwaethygu eu ffawd. Ni allwn anwybyddu'r lladd a'r dinistrio sy'n dilyn ymrafael arfog, ac sydd yn llesteirio gymaint ar ddatblygiad materol a moesol. Mae'r ras arfau yn gwahardd cynifer o adnoddau rhag cael eu defnyddio at ddibenion cadarnhaol, mae'n megino tân rhyfeloedd ac yn sbarduno'n ddiangen yr ehangu ar y fasnach arfau. Mae natur cyfran ein gwlad ni yn y fasnach arfau, gyda'i harfau niwclear a'r posibilrwydd o ras arfau rhyngwladol newydd yn rhoi her foesol ddwys i bobun ohonom ac i'r Llywodraeth nesaf.

*ffoaduriaid a'r rhai sydd yn gofyn am noddfa*

Yn yr Efengyl, mae Iesu yn dysgu fod derbyn a chroesawu'r estron a'r alltud yn ddyletswydd ar ei ddisgyblion: 'yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch'. Mae derbyn a gofalu am y rhai dan orthrwm yn draddodiad anrhydeddus. Mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid y byd yn ffoi o un wlad dlawd i wlad dlawd gyfagos. Mae gwledydd cyfoethog y byd yn derbyn llawer llai o'r trueiniaid hyn.

Mae Llywodraethau Prydain wedi ceisio parchu rhwymau cytundebol a derbyn ffoaduriaid tra'n gwrthod y rhai heb hawl, neu ymfudwyr sydd yn dymuno gwella eu sefyllfa economaidd. Mae gofynion lles y cyhoedd ac urddas ddynol yn mynnu fod yr ymateb yn deg ac yn fuan i'r rhai sy'n gofyn, a bod y rhai sy'n chwilio am noddfa a lloches yn cael eu trin yn weddus, gan barchu eu hanghenion sylfaenol.

Un o egwyddorion athrawiaeth gymdeithasol Gatholig yw fod adnoddau'r ddaear wedi'u creu gan Dduw er lles dynolryw. Mae hyn yn ein gorfodi ni i ofyn cwestiynau anghysurus am ein hymateb i ymfudwyr economaidd, ac yn fwyaf arbennig am y cymorth a gynigir gennym i'n cymdogion Ewropeaidd llai ffodus na ni.

Rhaid fod y trafodaethau yn ein plith ar ddyfodol gwleidyddol ac economaidd Ewrop yn cael eu hysbrydoli gan weledigaeth o deulu unedig Ewropeaidd lle y bydd anghenion y tlodion yn ben, ac sydd yn ystyried anghenion pobloedd tlotaf ein byd.

*aelodau teuluoedd ag angen gofal*

Un o ganlyniadau'r ffaith fod mwy o ferched a dynion yn ffurfio gweithlu'r wlad yw fod y rhai sydd yn gofalu am yr henoed a rhai caeth i'r ty yn cael anhawster i gyfuno gwaith a gofal. Pan fydd y gofalwyr heb ddigon o gymorth, y perygl yw y bydd mwy o hen bobl yn dibynnu fwyfwy ar gymorth a chefnogaeth o'r gymuned leol. Yn rhy aml, mae lefel y gofal hwnnw yn annigonol. Y canlyniad yw fod llawer o'r henoed yn teimlo eu bod yn faich ac yn wrthodedig, ac wedi eu cau allan gan ragfarn oed rhag cyfrannu fel y gallant ac y dymunant.

Mae llawer o fudiadau, gan gynnwys cymunedau ffydd, eisoes yn ychwanegu'n helaeth at yr hyn y mae gofalwyr teuluol a'r awdurdodau cyhoeddus yn ei ddarparu. Ond mewn cymdeithas lle y mae gwirfoddolwyr yn prinhau, lle y mae teuluoedd yn cael anhawster neu'n methu cwrdd â'r anghenion, mae'n berygl fod llawer heb urddas a heb angenrheidiau bywyd. Bydd cymdeithas sydd yn parchu lles y cyhoedd yn gofalu'n deilwng am ei hen bobl ac yn eu helpu nhw i ymuno ag urddas ym mywyd y gymdeithas honno.

*trosedd a charchar*

Mae gofynion y lles cyffredin yn galw ar yr awdurdodau cyhoeddus i wneud eu gorau i amddiffyn pobl ac eiddo. Byddant yn galw troseddwyr i gyfrif am eu trosedd ac yn gofalu am y rhai sydd wedi dioddef. Mewn cymdeithas lle y mae materoliaeth yn hollbresennol, lle y mae rhwymau cydberthynas wedi gwanhau, lle y mae safonau moesol dan gysgod a bywyd y teulu ar chwâl, nid yw'n syndod yn y byd fod troseddu wedi dod yn bryder cynyddol.

Pwnc o bwys yw effeithiolrwydd y gyfundrefn gosb. Mae'r nifer yn y carchardai ar gynnydd ac aildroseddu ar ryddhau yn uchel. Oni ddylid ystyried, heb gyfaddawdu ar ddiogelwch y cyhoedd, sut y gellir addysgu ac ailsefydlu carcharorion ac nid yn unig eu cadw yn y ddalfa? Ar hyn o bryd, mae'n amlwg nad ydynt bob amser yn cael y parch sydd yn ddyledus iddynt fel bodau dynol. Mae cyfanrif y carcharorion ym Mhrydain yn uwch nag yn yr un wlad Ewropeaidd arall. A oes angen iddynt oll fod yn y carchar? Oni ddylid chwilio am atebion eraill a hynny o ddifrif?

*cymryd rhan democrataidd*

Mewn gwlad ddemocrataidd, mae pleidleisio yn ddyletswydd foesol os nad yw'n un gyfreithiol. Mae'r rhai sy'n byw dan gyfundrefnau annemocrataidd yn dyheu am gael yr hawl. Dylem ochel peidio â phleidleisio oherwydd difrawder, difaterwch neu siniciaeth; mae'r rhain oll yn tanseilio'r broses ddemocrataidd. Mae'r hawl i bleidleisio yn gosod arnom y ddyletswydd i bleidlesio ac i bleidleisio'n gyfrifol ac felly tanlinellu fod arweiniad ac arweinwyr gwleidyddol yn hanfodol i les y cyhoedd.

Mae Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon yn argymell cyfarfod â'r ymgeiswyr ymhob etholaeth. Yr ydym ni'n annog fod aelodau o bob plwyf, a chynifer ag sydd yn bosibl, yn ymuno yn y cyfarfodydd hyn.

**Diweddglo**

Rhan bwysig o fod yn Gristion yw ymuno yn y broses wleidyddol. Yn graidd i'r broses honno yw ein perthynas â'r Un Wir Dduw sydd wedi llefaru wrthym yng Nghrist Iesu ac sydd yn ein galw ni ato yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Gorchwyl pobun yw gweddnewid ein byd trwy weddi, tystiolaeth a gweithgarwch.

Ar ddiwedd Jwbili Fawr y flwyddyn 2000, mae'r Pab John Paul II wedi anfon llythyr at holl Gatholigion y byd, yn ein hannog ni i weld wyneb Crist yn y tlodion. Mae'n sgrifennu:

'Mae ein byd ni yn dechrau ar fileniwm newydd dan faich croesddywediadau cynnydd economaidd, diwylliannol a thechnolegol sydd yn cynnig posibiliadau aruthrol i'r ychydig rai ffodus ond yn gadael miliynau nid yn unig ar ymylon cynnydd, ond mewn amodau byw sydd islaw urddas ddynol. Sut y gall fod yn ffaith fod llawer hyd yn oed heddiw yn marw o newyn? wedi eu dedfrydu i fod yn anllythrennog? heb y gofal meddygol mwyaf elfennol? heb do uwch eu pennau?

‘Mae’r braslun o dlodi yn gallu ymestyn yn ddiderfyn pan fyddwn yn ystyried ei batrymau newydd yn ogystal â’r rhai hanesyddol. Mae’r patrymau newydd hyn yn effeithio’n ariannol ar y sectorau a’r grwpiau cyfoethog sydd ar yr un pryd yn anobeithio oherwydd diffyg ystyr yn eu bywydau, oherwydd caethiwed i gyffuriau ac ofn cael eu diystyru yn eu henaint a’u salwch, eu hel i gyrion bywyd a’u hanghofio oherwydd rhagfarn gymdeithasol. Yn y cyfwng hwn, rhaid i Gristnogion ddysgu proffesu eu ffydd yng Nghrist gan ddirnad ei lais yn y cri am gymorth sydd yn codi o dlodi’r byd. Yn awr yw’r amser am atebion creadigol newydd mewn cariad, nid yn unig wrth sicrhau fod help yn wirioneddol effeithiol, ond hefyd trwy “ddod yn agos” at y rhai sydd yn dioddef, er mwyn i’r llaw sydd yn cynnig help gael ei gweld nid fel cardod gwaradwyddus ond yn rhannu cariadlon rhwng brodyr a chwioydd’.

Rhaid bod yn ymwybodol o’r pesimistiaeth arwynebol sydd yn canolbwyntio ar hanesion o ddigalondid a thristwch. Yn sicr, mae yno lawer o broblemau dyrys ond hefyd lawer sydd yn argoeli goleuni a gobaith. Meddyliwch, er enghraifft, am reddf foesol sicr cynifer o bobl ifainc wyneb yn wyneb â chyfiawnder a gwirionedd. Cofiwch am eu brwdfrydedd hefyd ynglyn â diogelu’r amgylchfyd; cofiwch am ymrwymiad a dyfalbarhad cynifer o athrawon a nyrsys, am haelioni di-ben-draw cynifer o bobl sydd yn rhoi o’u hamser a’u harian i helpu’r anghenus gartref a thramor, am anhunanoldeb tawel y rhai sydd yn gofalu am berthnasau sâl ac yn eu gwarchod. Ac ar lefel polisi cyhoeddus, er gwaetha’r holl broblemau, rhaid cydnabod a chanmol y gorchestion a gyflawnir ac adeiladu arnynt.

I ailddarganfod ein ffydd mewn dyfodol gwell, rhaid ailafael yn yr ymwybod o undod a chydlyniad. Mae ysbryd dyn yn gallu ymateb i alwadau eang a phellgyrhaeddol. Yn awr, gelwir ar y gymuned Gatholig i dystio i’n ffydd yn yr hyn a wnawn, yn ein bywyd bob dydd ac yn ein geiriau. Tystion sydd yn dangos cariad Duw a’r cariad hwnnw yw’r unig obaith i fyd dryslyd ac aflonydd.